# Croeso i Gastell Dinbych

Un o gestyll y Mers a godwyd ar lys Tywysogion Cymru

## Beth i'w weld yng Nghastell Dinbych


1. Dychmygwch frwydro'ch ffordd i mewn i'r porthdy mawr â'i dri thŵr... dros y bont godi â'i hamddiffynfeydd effeithiol a thrwy'r drws cadarn wedi'i warchod gan ddau borthcwlis.
2. Mwynhewch y golygfeydd ysblennydd o Ddyffryn Clwyd o'r rhodfa ben mur. Bu tywysogion Gwynedd yn amddiffyn y safle hwn ar fryn serth ymhell cyn i Sais o'r enw Henry de Lacy ddechrau codi ei gastell yn 1282.
3. Sbïwch lawr i'r ffynnon werthfawr; unig gyflenwad dŵr y castell. Ond, er mor werthfawr oedd y ffynnon, a fu hi'n farwol hefyd? Credir i fab hynaf Henry de Lacy, Edmund, foddi ynddi.
4. Mae hi'n oer yma yn yr is-lawr, hyd yn oed yn yr haf — lle da i gadw gwin a chig yn ffres. Mae yma addurniadau hefyd — cerfiadau cerrig o goblyn, llew a merch ifanc.
5. Ewch i lawr at y cilborth cywrain. Câi'r ail fynedfa hon i'r castell ei hamddiffyn gan bont godi a phorthcwlis.
6. Cewch grwydro muriau hanesyddol tref Dinbych. Mae'n llwybr 1km gyda rhannau serth, grisiau a golygfeydd gwych.
7. Mynedfa/siop.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

cadw.llyw.cymru

Ymunwch â Cadw i fwynhau mynediad diderfyn i 131 o safleoedd hanesyddol

Mae'r Cymry wrth eu bodd â dreigiau! Gwaetha'r modd, does dim dreigiau'n byw mewn cestyll, ond rydyn ni wedi cuddio un yn y llun — am hwyl. Allwch chi ei gweld?




Mae'r heneb hon yng ngofal Cadw, gwasanaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol. Mae Cadw'n gweithio i sicrhau bod amgylchedd hanesyddol Cymru yn hygyrch ac yn cael ei warchod yn dda. Mae'n drosedd difrodi neu ddifwyno'r heneb.

### Er eich diogelwch

Gall henebion fod yn beryglus.
Peidiwch â dringo ar yr heneb.
Cymerwch ofal wrth ymweld â'r safle hwn.
Rhaid goruchwylio plant dan 16 oed trwy'r amser.

Denbigh Croeso leaflet WELSH v3.indd 1 07/05/2024 15:56